# Llais Llandyrnog Voice

## Mehefin 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 9

## Safle'r hufenfa ar werth

Anfonwyd y llythyr hwn at ein Cynghorydd Sir, Merfyn Parry, ychydig ddyddiau cyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r *Llais*.

Annwyl Gyngh. Parry,

Ysgrifennaf atoch i roi newyddion i chi am ein safle yn Llandyrnog, Gogledd Cymru. Fel y gwyddoch, penderfynwyd ddwy flynedd yn ôl i roi'r gorau i gynhyrchu caws yno am y tro, yn sgil ailystyried ein gweithgareddau cynhyrchu caws. Ers hynny, rydym wedi bod yn adolygu'r sefyllfa'n gyson cyn penderfynu ynglŷn â dyfodol y safle.

Erbyn hyn, rydym wedi penderfynu mai'r peth iawn i'w wneud yw gwerthu'r safle. Yn sgil datblygiad ein busnes ers 2018, dyma'r penderfyniad iawn i Arla Foods a'r ffermwyr sy'n gyd-berchnogion ar y cwmni. Mae'r safle wedi bod yn gweithredu gyda'r nifer lleiaf posibl o staff ers 2018, felly dim ond un cyd-weithiwr fydd yn colli ei waith.

Gobeithiwn y bydd hyn yn rhyddhau'r safle i'w ddefnyddio mewn ffyrdd eraill, a ddylai, yn ei dro, greu nifer o swyddi a chyfleoedd newydd eraill yn lleol. Cyn bo hir byddwn yn gofyn am gymorth proffesiynol i'n llywio ni drwy'r broses o werthu ac roeddwn am i chi wybod am hyn cyn i'r newyddion gyrraedd y cyhoedd.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi wrth i'r broses ddatblygu.

Yn gywir,

Ash Amirahmadi
Rheolwr Gyfarwyddwr

Arla Foods UK



*Drain ac ysgall mall a'i medd...*



# O rifyn mis Ionawr 2018, *Llais Llandyrnog Voice*

*Fe fu'r ffatri yn pacio anrhegion Nadolig eleni ar gyfer Sainsbury's. Caws Cheddar a chwisgi oedd y naill, port a Stilton oedd y llall, y ddau fath wedi'u pacio mewn bag organsa.*

*Cafodd Gwobrau Caws y Byd eu dyfarnu ym mis Tachwedd yn 'The Taste of London: Festive Edition'. Roedd 3,000 o fathau o gaws yno o chwe chyfandir, gyda 230 o arbenigwyr o bob cwr o'r byd yn eu beirniadu. Enillodd hufenfa Llandyrnog wobr aur am ei chaws Cymreig aeddfed iawn, a phum gwobr arian a thair gwobr efydd am ei chawsiau eraill. Llongyfarchiadau!*

*Er gwaetha'r tywydd oer a'r eira ganol mis Rhagfyr, gosodwyd tri seilo newydd yn lle'r hen rhai 45 oed. Mae'r rhai newydd werth £700,000 ac wedi'u hoeri a'i hinsiwleiddio.*







Y tristwch ydy bod yr adroddiad hwn yn dangos penderfyniad Arla i fuddsoddi yn y busnes ac ansawdd ardderchog y caws a gynhyrchwyd yno, ychydig dros chwe mis cyn i'r lle gau.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



**Manylion cyswllt:**

**Ffôn symudol: 07836 208446**

**E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk**

**Neu gadewch neges ar Facebook**


DBP

**Denbigh Building Plastics**

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Newyddion y pentre

**Dymuniadau da** i Willy Plumb ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Broad Green ac Ysbyty Glan Clwyd; ac i Albie Roberts, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Maelor.

**Llongyfarchiadau** i Mark a Fiona Bowen, Cwm Hyfryd, ar enedigaeth George, brawd bach i Tomos, ac i Jason a Julie Jones a fu'n dathlu eu pen-blwydd priodas arian ar 20 Mai.
Hefyd i Rhys Davies, Dre Goch Isa ar gael ei benodi'n aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru. Mae hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru.



**Penblwydd hapus** hwyr i Helen, siop y cigydd – gobeithio dy fod wedi cael dathlu rywfaint! Diolch yn fawr am dy wasanaeth yn y siop.

**Diolch yn fawr** hefyd i David Plumb am ofalu nad oes sbwriel ar ein lonydd. Mae'n debyg bod llawer llai o sbwriel ar y ffyrdd rŵan.

**Eisteddfod T yr Urdd**: Llongyfarchiadau i Mason Powell a'i fand, Bro Dyr Roc, ar ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth grŵp pop neu roc i rai Blwyddyn 6 ac iau, ac i Efa Gwen Roberts ar ennill y drydedd wobr yn y gystadleuaeth llefaru Blwyddyn 4–6.

**Dymuniadau da** i Keith Jones yn ei gartref newydd yn Skegness. Gobeithiwn y bydd yn fodlon wrth ddechrau'r bennod newydd hon yn ei fywyd.

# Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog



Fe ohiriwyd penderfynu'n derfynol ynghylch cynnal y sioe, pan oedd rhywfaint o bosibilrwydd y gallai fynd yn ei blaen. Ond erbyn hyn rydym yn teimlo nad yw hi'n bosibl ei chynnal eleni. Mae hyn yn siom, wrth reswm ond mae'n bur debygol na fydd nifer fawr o bobl yn cael cyfarfod dan do, hyd yn oed petai'r cyfyngiadau presennol yn cael eu llacio. Felly, gyda chalonnau trwm, rydym wedi penderfynu gohirio'n sioe flynyddol tan y flwyddyn nesa.

Gofalwch amdanoch chi'ch hunain a byddwch yn ddiogel.

John Rowlands (Cadeirydd)
Ar ran y pwyllgor


**Aelodau'r Pwyllgor:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com***


**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

# Neges o Awstralia



Mae'r ffiniau â gwledydd eraill wedi cau yma yn Awstralia ers dau fis bellach a daeth cyfyngiadau symud swyddogol i rym tua chanol mis Mawrth 2020. Collodd oddeutu 400,000 o bobl eu swyddi dros nos. Ymatebodd y llywodraeth yn gyflym i roi cymorth ariannol i'r rhai mewn angen, yn bennaf y rheini a oedd yn gweithio yn y diwydiant arlwyaeth a lletygarwch. Rwy'n gweithio i gwmni gwneud concrit, sy'n gwmni teuluol yma yn Wollongong, New South Wales, ac mae hwnnw wedi gallu parhau i weithredu ar ôl cyflwyno mesurau hylendid a phellter cymdeithasol. Er bod y byd o'n cwmpas wedi dod i stop, roedd hi'n fusnes fel arfer i ninnau'n dal i fod.

Mae'n ymddangos mai llong bleser, *The Ruby Princess,* oedd prif ffynhonnell ein trafferthion yma yn Awstralia. Yn union cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, daeth tua 3000 o bobl oddi ar y llong yn Sydney, llawer ohonynt, yn ddiarwybod iddynt eu hunain wedi eu heintio a COVID-19, a bu farw llawer ohonynt yn ddiweddarach. Erbyn heddiw mae cyfanswm o 98 o bobl wedi marw yn Awstralia, a dim ond un achos sydd yma ar hyn o bryd yn ein hysbyty lleol yn Wollongong.

Mae'r ysbryd cymunedol yn Awstralia wedi parhau'n gryf. Er bod llawer o bobl wedi rhuthro i'r archfarchnadoedd yn y dyddiau cynnar gan achosi panic, erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o bobl wedi addasu i'r angen i aros gartref er lles y wlad. Mae'r cyfyngiadau yn dechrau llacio o'r wythnos hon, gyda'r plant yn dychwelyd i'r ysgol fesul dipyn. Mae'n ymddangos bod pobl yn obeithiol y bydd pethau'n well maes o law, er ein bod yn gwybod bod tywydd oerach misoedd y gaeaf o'n blaenau.

Rwy'n meddwl am y rheini sy'n darllen hwn yn *Llais Llandyrnog*.

Cadwch yn ddiogel,

Cofion cynnes,

Gwyn Roberts (Gader Goch)

**Ar ran holl dirfeddianwyr y fro: gofalwch eich bod yn cau pob gât pan fyddwch chi'n cerdded ar draws tir amaeth**

**City Travel & Tours**

Local ABTA & ATOL Bonded Independent Travel Agent

Cruises, coach tours, family holidays, skiing trips, concert events, UK breaks – you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined 90 years of travel experience, so call us for friendly travel advice.

**We are based at Tweedmill, St Asaph**
**Tel: 01745 730321**
**Email: citytravel@tarsc.net**

# Hel atgofion




Mae hen luniau o Landyrnog wedi cael eu rhoi ar dudalen Facebook y pentre' yn ddiweddar. Un a ddenodd gryn sylw oedd hwn – calendr siop Charlie Wills. Roedd Charlie yn dipyn o gymeriad ac roedd yn rhedeg siop symudol ym maes parcio Ysbyty Llangwyfan er mwyn i'r llond bysys o ymwelwyr a oedd yn cyrraedd ar benwythnosau allu prynu ffrwythau, blodau neu siocledi i'r bobl yr oedden nhw'n ymweld â nhw – yn amlwg roedd Charlie yn barod i fentro!

Ar ôl ymddeol bu'n byw yn Ninbych, ac roedd ganddo gi bach a fyddai'n cerdded o waelod y dre' i'r top, gan neidio ar y bws i fynd yn ôl i lawr y bryn.

Mae merch Dorothy Wills (roedd y siop yn marchnata o dan ei henw hi), yn ogystal â nith Dorothy, wedi ymateb i'r llun.

Mae un o'r bobl a ymatebodd yn cofio y byddai Charlie a Dorothy yn torri pecyn o *fish fingers* yn ei hanner i'w nain, gan nad oedd ganddi rewgell! 'Sôn am wasanaeth ardderchog!'

Mae fan Austin sy'n debyg i'r un a oedd ganddo i fynd ag archebion i bobl i'w weld yn y llun isod.

Byddai nifer o hogiau lleol yn torri logiau ac yn eu clymu efo stribedi o diwbiau teiars ceir, er mwyn i Charlie eu gwerthu yn y siop. Yn ôl y sôn, roedd Charlie'n adrodd hanesion digon anodd eu credu wrthyn nhw. Os oes gennych unrhyw atgofion o Charlie a Dorothy Wills a'u siop, beth am eu rhannu â ni? Anfonwch e-bost at llandyrnognews@gmail.com neu cysylltwch ag Anwen ar 07340 271051.



Simon Barke HANDYMAN •SOLUTIONS•

www.sbhandymansolutions.co.uk

**Large range of trades – fully insured**

Interior and exterior painting and decorating
Wall and floor tiling
Guttering installed, repaired or cleared
Fence and gate building, erecting and repairs
Roof repairs and insulation
… and so much more – just ask if it's not listed here

**Please call or text for a free no-obligation quote:**

**07979 431564 or 01824 790047**

**Or contact me via email or Facebook:**

**s.barke28@gmail.com**

**facebook.com/SBHandymanSolutions**

# Canu trwy Covid

Mae'r Covid wedi creu gofid drwy'r byd, a phob gwlad yn ymateb yn go debyg – pawb mewn ofn a phryder yn y bywyd caeth annormal, newydd 'ma. Roedd arolwg o 13 gwlad yn ddiweddar yn cymharu sut oedd pobol wedi ymateb i'r gwaharddiadau 'ma:

Pobol Prydain oedd y gorau am hunan-ynysu'n wirfoddol. Pobol Sweden oedd y gorau am olchi eu dwylo'n aml (14 gwaith mewn diwrnod). Pobol Sbaen oedd y gorau am beidio â chyffwrdd mewn pethau y tu allan i'w cartrefi!

Dwi'n siŵr pe bai 'na arolwg o ba wlad sy'n canu fwyaf adeg y Coronafeirws, mai ni'r Cymry fyddai'r gorau, ac ar y top. Mewn lle main, be wnawn ni'r Cymry ond canu, a chyfansoddi, a chreu cerddi i godi'n c'lonne. Mae'n ail natur i ni, rywsut. Yn un o ganeuon dathlu Côr Bro Aled yn 40 gan Rhys Dafis sy'n sôn am y pleser o ganu fel côr oedd y geiriau: 'Mae brawdoliaeth yn y galon, am fod canu, canu **yn y gwaed'.** Mae o'n wir yn dydi – canu fel rhaff achub yn ein llusgo ni allan o'r mwrllwch 'ma.

Beth wnaeth Catrin Angharad Jones o Ynys Môn fis Mawrth i godi ysbryd pobol ond creu côr o'r enw Côr-ona – lle i bawb fynd ar 'Facebook' a chanu unrhyw beth, a gweld pobol eraill yn canu. Mae un ferch wrthi'n canu yn y cwt ieir, a'r hen ieir yn pigo o'i chwmpas hi. Mae Aled Wyn Davies yn canu yn y sied ddefaid ac ambell i ddafad yn codi'i chlust.

Mae gan Shân Cothi, Radio Cymru slot newydd yn ei rhaglen bob bore erbyn hyn – Y Gymanfa, lle bydd gwrandäwr wedi dewis hoff emyn a phawb sydd ag awydd yn cael ymuno yn y gân gartre. Cawn gyfle fore Sul i gyd-ganu yn y ddwy raglen ar S4C, heb sôn am ar sianeli eraill.

Does dim rhaid edrych yn bell am gantorion yn ardal Llandyrnog – bu canmol mawr i Steffan ac artistiaid Cymraeg y West End a chantorion ifanc Dinbych, ac mae Dan Lloyd a chast *Deffro'r Gwanwyn* yn un o grŵp swynol iawn ar YouTube sydd yn codi arian i gefnogi Tarian Cymru. Elusen yw hon sy'n prynu offer diogelwch personol i weithwyr iechyd. Mae Lona, Llwyn Helyg, mewn côr o gyn-ddisgyblion a staff Ysgol y Creuddyn  yn canu i godi arian a'r ysbryd, gyda'r geiriau

'Cei godi'n uwch, cei deimlo'n well
Os oes gen ti gân i'w rhoi'.



*Cast gwreiddiol* Deffro'r Gwanwyn*, yn canu* Hiraeth Haf

# Canu trwy Covid: parhad

Ddechrau Mai cafodd Richard Vaughan, arweinydd Côr y Gleision, syniad da. Roedd o'n gofyn am wirfoddolwyr dros y we drwy Gymru gyfan i ganu soprano, alto, tenor a bas ar ben eu hunain gartre ac anfon fideo iddo fo. Gwelwyd y tapestri llawn o wynebau cannoedd y bobl yn eu bocsys bach ar sgrîn yn CYD-GANU ar S4C. Dydi technoleg yn anhygoel!

Mae'r feirws 'ma hefyd wedi rhoi ysfa i feirdd mawr a bach ymateb drwy farddoni. Crëwyd 'Cerddi Corona' ar y we gan Barddas ac mae yna gerddi gafaelgar iawn yno ac mewn sawl man arall. Mae'r gerdd 'Mae' (ar YouTube) gan Mererid Hopwood yn gafael – mae hi'n edrych 'mlaen yn obeithiol at ddiwedd y Covid – 'Drwy niwl y wawr / **Mae** haul ar fryn / **Daw** dydd, / **daw** bore newydd.'

Daw, mi ddaw haul ar fryn. Mae Natur yn ei harddwch fel petai wedi'n cynnal ninne drwy'r amser od yma.

*Ann Jones Evans*

# Rysáit y mis

## Cyffug siocled

**Cynhwysion**

75g/3 owns o fenyn wedi'i dorri'n ddarnau yr un maint
500g/1pwys 2 owns o siocled plaen – wedi'i dorri'n ddarnau
Tun 400ml/14 owns hylif o laeth tew (*condensed milk*)
½ llwy de o rin fanila

**Dull**

Irwch dun cacen sgwâr 20cm (neu dun tebyg).
Rhowch y menyn, y siocled a'r llaeth tew mewn sosban â gwaelod trwchus.
Cynheswch y cynhwysion, gan eu troi'n gyson a pheidiwch â gadael i'r cymysgedd ferwi.
Pan mae'r cymysgedd yn llyfn, tynnwch y sosban oddi ar y gwres, ychwanegwch y rhin fanila a churwch y cyfan nes bydd o'n drwchus.
Tywalltwch y cymysgedd i'r tun a gwnewch yr wyneb yn llyfn.
Gadewch y cyffug yn yr oergell am awr ac wedyn ei fwyta ar ôl ei dorri'n sgwariau (ond peidiwch â bwyta'r cyfan ar unwaith!)

*Louise Eccleston*




*Mae sawl wyneb cyfarwydd o fyd cerddoriaeth a pherfformio ymhlith y criw yma!*

# Dod i adnabod... Ray Hamill



F'atgofion cynharaf yw tŷ bychan ar ben res o dai ym Magillt. Y goeden ellyg ar waelod yr ardd y cwympais i allan ohoni, y *Staffordshire terrier* a'm brathodd pan geisiais i fynd â'i asgwrn oddi wrtho, a fy hoff dedi a aeth ar goll pan adawais i o'n eistedd ar ben wal. Dim ond tair blwydd oed oeddwn i, felly dim ond ychydig o atgofion sydd ar ôl o gyfnod plentyndod cynnar hapus.

Tua'r adeg honno symudodd y teulu i dŷ *semi-detached*, hefyd ym Magillt, a hwnnw oedd ein cartref ni am yn hir wedyn. Yn fuan ar ôl symud, cafodd fy mrawd ei eni ac yna rai blynyddoedd yn ddiweddarach, ganwyd fy chwaer i gwblhau'r teulu. Roedd Dad yn gweithio yn Courtaulds, a Mam gartref y rhan fwyaf o'r amser.

Aethon ni i gyd i ysgol Y Bŵt ym Magillt. Roeddwn i'n mwynhau'r ysgol, ac yn fuan daeth i'r amlwg mod i'n rhedwr chwim.

Y tu allan i'r ysgol, roedden ni'n mwynhau chwarae yn yr awyr agored gyda'n ffrindiau, yn reidio'n beiciau i fyny ac i lawr y stryd – doedd dim llawer o geir bryd hynny cofiwch! Bydden ni'n chwarae yn y coed a'r caeau cyfagos, yn pysgota yn y llynnoedd yn Nyffryn Maes Glas, yn dod â phenbyliaid a silidóns adref ac yn gwneud pyllau dŵr iddyn nhw. Roedden ni hefyd yn chwarae lle na ddylen ni fod yn gwneud, ar gorstir y Dyfrdwy ac ar safleoedd gwag yr hen weithfeydd smeltio plwm a'r pwll glo. Bydden ni'n taflu cerrig i lawr yr hen siafft, gan gyfrif nes bod y cerrig yn taro'r dŵr a oedd yn cuddio'r gwaelod yn ddwfn o dan y ddaear. Rhaid cyfaddef inni droedio'n ofalus a phetrusgar dros ben wrth fynd i sefyll ar ochr y dibyn, gan fod y tir yn dod yn rhydd yn hawdd iawn. Well i fy wyrion beidio â chlywed am yr anturiaethau hyn, hwyrach.

Fe es i wedyn i Ysgol Ramadeg Treffynnon lle gwnes i ffrindiau newydd. Daeth fy nhalent am redeg i sylw eraill ac ymunais â thîm o athletwyr. Dros y blynyddoedd cefais lwyddiant mawr mewn cystadlaethau sbrintio a'r naid hir. Uchafbwynt fy ngyrfa fel athletwr oedd cynrychioli Cymru mewn tîm dan ugain oed. Er nad fi oedd y chwaraewr rygbi mwyaf talentog yn y byd, roedd lle imi bob amser ar yr asgell gan fy mod yn rhedeg mor gyflym.

Yn ystod fy mlynyddoedd olaf yn yr ysgol, datblygais uchelgais i ymuno â'r awyrlu fel peilot. Y cyngor a gefais gan fy athrawon a'm rhieni oedd y dylwn fynd i'r brifysgol i astudio gwyddoniaeth. Yn y diwedd dilynais y cyngor hwnnw, a chefais fy nerbyn i astudio cemeg a ffiseg yn Lerpwl. Ond yn ystod wythnos y glas, sylwais ar stondin sgwadron awyr y brifysgol a dyma fi'n mynd draw i gael sgwrs. Pe bawn yn ymuno fel aelod o'r awyrlu gwirfoddol, byddwn i'n cael y cyfle i ddysgu hedfan ym maes awyr Woodvale ger Formby ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Roedd yr hyfforddiant yn dilyn maes llafur y lluoedd arfog ac roedd yr hyfforddwyr yn beilotiaid proffesiynol yn yr RAF. Fe wnes i gais ar unwaith a chefais ar ddeall y bydden ni'n cael gwybod ar ôl y Nadolig a oedden ni wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, dywedwn wrthyf i fy hun na ddylwn godi fy ngobeithion yn ormodol ynghylch y cais i ymuno â'r sgwadron awyr, rhag ofn i mi gael fy siomi.

Rwy'n meddwl y gwnaf i orffen yn fanno am y tro, ac os oes gan rywun ddiddordeb mewn clywed am yr 50 mlynedd nesaf, byddaf i'n hapus i barhau â'r hanes mewn rhifyn yn y dyfodol.

# Grŵp cefnogi llwybr seiclo Sir Ddinbych

Rydym yn byw mewn cyfnod rhyfedd ac anodd ac mae un peth yn sicr – rydyn ni'n dysgu mathau newydd o ymddygiad ac yn wynebu heriau newydd! Mae ambell fath o ymddygiad yn mynd yn hollol groes i'r graen – fel methu â gweld ein hanwyliaid. Ond efallai bod ambell beth yn gwneud lles i ni a'r rheini o'n cwmpas ni. Un yw'r pwyslais ar weithgar-edd corfforol bob dydd a mynd allan yn ystod y tywydd hyfryd sydd wedi bod yn ddiweddar.

Rydw i wedi bod yn hoff iawn o seiclo erioed, er nad ydw i erioed wedi gwisgo lycra (!), yn enwedig reidio ar hyd lonydd cefn gwlad, mynd i lawr y dyffryn nawr ac yn y man, i lan y môr, ac i Ruthun a Chorwen. Ai nid dim ond fi sy'n meddwl bod mwy o bryfed ac adar o'n cwmpas eleni?

Mae'r llywodraethau amrywiol yn ein hannog ni i wneud hyn, mewn ymateb i heriau'r feirws. Ond dydy hyn ddim yn beth newydd. Ym mis Medi 2014, daeth Llywod-raeth Cymru â Deddf Teithio Lleol (Cymru) i rym ym mis Medi 2014 gan ei gwneud hi'n orfodol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol a'u cynllunio. Mae hyn yn canolbwyntio ar seiclo a cherdded. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymgorfforі hyn yn ei gynllun ac wedi ymrwymo i weithrediadau a fydd yn helpu i leihau cynhesu byd-eang.

Efallai fod rhai ohonoch yn cofio cynlluniau gwreiddiol Sir Ddinbych i agor yr hen reil-ffordd rhwng Rhuthun a'r Rhyl, i lawr 'meingefn' Dyffryn Clwyd. Yn anffodus, er bod nifer fawr o bobl yn eu cefnogi (ond mae'n amlwg nad oedd y rhain yn ddigon huawdl), ni chafodd y cynlluniau eu gwireddu am sawl reswm. O gymharu'r rhain â'r llwybr pres-ennol rhwng Dyserth a Phrestatyn, sydd hefyd yn hen linell rheilffordd, fe welwch beth sy'n bosib ei wneud!

Ar 5 Mai, penderfynais weld a fyddai'n bosib dod â phobl at ei gilydd i gefnogi'r syniad a'r Cyngor mewn ffyrdd cadarnhaol a chreadigol a gweld a fyddai'n bosib cael cyllid allanol yn y tymor hirach. Ffurfiais Grŵp Cefnogi Llwybr



Seiclo Sir Ddinbych ar Facebook ac ar ôl chwe diwrnod roedd 1200 o aelodau gan y grŵp – mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel!

Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau'n byw yn Sir Ddinbych ac eraill â rhyw gysylltiad â'r sir. Mae'r rhan fwyaf yn bobl 'normal' ac yn deuluoedd, a'u hunig ddymuniad yw cael llwybrau diogel i seiclo arnyn nhw ac i gerdded ar eu hyd.

Rwy wir yn credu bod y syniad yn un hollol amlwg. Mae'n cysylltu cymunedau, yn gwella iechyd (corfforol a meddyliol), yn helpu'r amgylchedd ac yn cynnal yr economi (trwy dwristiaeth a meysydd cysylltiedig).

Wrth gwrs, fe fydd heriau. Mae nifer fawr o bobl yn erbyn y syniad. Bydd yn gostus iawn. A bydd angen i arferion pobl newid (yn y tymor hirach). I fod yn fwy ymarferol, dim ond pobl sydd ar Facebook sy'n gallu ymuno â'r grŵp ar hyn o bryd – bydd dewisiadau eraill yn golygu delio â'r GDPR bondigrybwyll!

Ond rwy'n angerddol ynghylch hyn. Os gallwn fod yn ymroddedig, yn gadarnhaol a pharhau i barchu barn ein gilydd, rhaid i hwn fod yn achos gwerth chweil gyda chymaint o fanteision. Gwyliwch y gofod a chyhoeddwch y gair!

*Roger Rowett*

Os oes gennych syniadau ac awgrymiadau cadarnhaol, cysylltwch â Roger ar rogerrowett@btinternet.com

# Ysgol Bryn Clwyd

Yn ystod y mis rydyn ni wedi trafod sawl pwnc, gan gynnwys arwyr, morladron, gwenyn ac achosion enwog o dwyll, ymhlith eraill

Rydyn ni wedi anfon cwtsh bach (tocyn bach o bren) at bob plentyn ac ychydig o had-au blodau haul fel ein bod ni'n gallu cael cystadleuaeth tyfu blodau haul.

*Callum yn tyfu blodau haul*





*'Owelette', uwcharwr Lillie*

*Amelia yn gwneud cacen fêl*






*Llun ffug Nellie, wedi'i ysbrydoli gan dylwyth teg Cottingley*



*Bocs nythu'r ysgol – pedwar titw bach yn barod i adael y nyth. Mae'r bocs yn wag rŵan.*

# HUN yn dod adre

Ganed fy nhaid, Thomas Davies, Fferm Bancer, yn 1892, a bu farw yn 1965 yn 73oed pan oeddwn i'n 7 oed. Mae'n rhyfedd meddwl bod fy nhaid wedi ei eni yn y ganrif cyn y diwethaf, a 'mod i wedi cael y pleser o'i gwmni am rai blynyddoedd fy mywyd. Teimlaf ei bod hi wedi bod yn fraint cael ei adnabod, er ei fod wedi'n gadael cyn iddo all gwneud argraff barhaol arnaf.



*Richard (ar y chwith, gyda'r bicwarch – doedd dim sôn am reolau iechyd a diogelwch yn y cyfnod yna!) a Bryn (ar y tractor) gyda'u mam, Gwen.*

Ta waeth, ffarmwr oedd fy nhaid, ac yn 1952, yn 60 oed (mewn gwth o oedran), penderfynodd uwch-raddio ei dractor dibynadwy Allis B, am dractor *Cropmaster*. Yn ôl rhai o'm ffrindiau o oedran arbennig, byddai'r tractor wedi costio tua £400 yn 1952! Byddai hynny tua £12,500 yn arian heddiw, ac o gofio mai £450 oedd cyflog cyfartalog yr adeg hynny, roedd hwn yn dipyn o fuddsoddiad. Rhaid cofio y gallai un ceffyl droi un acer o dir y dydd, ond gallai'r tractorau bach yma orffen y gwaith mewn awr, ar ôl i'r aradr gael ei pharatoi ar gyfer y gwaith, wrth gwrs.

Cofrestrwyd y tractor yn enw Taid yn 1952, a newidiodd ddwylo o fewn y teulu yn 1961. Yn 1968, aeth y tractor at Mr Evans, Mount Pleasant, Henllan. Wedi hynny, doedd dim sôn am y tractor. Felly, i ble mae'r stori yma'n arwain, 'te?

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd rhaid i un o'm ffrindiau, yn groes i'r graen, werthu'r holl dractorau roedd o wedi eu casglu dros y blynyddoedd – tua 40 ohonyn nhw. Gan fod yn y casgliad amrywiaeth mawr o dractorau unigryw a phrin, hysbysebwyd yr arwerthiant yn genedlaethol. Yn llythrennol, denodd hyn gannoedd o bobl ar draws y Deyrnas Unedig i'r arwerthiant.

Ta waeth, ar ddiwrnod yr arwerthiant, mi roddodd y gwerthwr groeso cynnes i mi wrth y giât (fel unrhyw westeiwr perffaith) a gofyn i mi oedd gen i awydd prynu. Wel, oedd, medde fi, ac mi bwyntiodd at y *Cropmaster* dwy sedd – HUJ 124. 'Os wyt ti'n prynu, pryna hwnna'. *Cropmaster* David Brown oedd o, efo mainc eistedd - mae'r *rhain* yn anghyffredin am eu bod nhw'n gallu cario dau berson efo'i gilydd. Roedd o'n awyddus i'w gadw'n lleol er ei fod wedi bod yn sgwrsio efo rhywun o *East Anglia* oedd â diddordeb mawr yn y tractor.

I dorri stori hir yn fyr, erbyn diwedd yr arwerthiant, roedd 'na ddau ddyn hapus – un yn gyfoethocach a'r llall yn dlotach! Fi oedd perchennog newydd y HUJ 124! Iawn, ar y pryd mi deimles i chydig yn flin am fod mor fyrbwyll, ond drannoeth, doedd hynny ddim ond dŵr dan bont! Yng nghyffro arwerthiant, ma rhywun yn tueddu i gael rhyw chwiw ryfedd, yn tydi? Y sefyllfa ddelfrydol fyddai bod â'r wraig wrth eich ochr, i roi pwniad go iawn i chi unwaith rydech chi'n dechre mynd dros ben llestri!!

Ta waeth, roedd hi'n rhy hwyr erbyn hyn, ac mi wnes i hyd yn oed oroesi'r reid adref o Dreffynnon dros Foel Arthur. Roedd hon yn daith gyffrous ond brawychus dros ben gan nad oeddwn i'n siŵr a oedd y brêcs yn gweithio ne ddim! Ond roedd gen i gynllun: os base'r tractor yn dechre rhedeg, mi faswn i'n neidio i ffwrdd – heb os nac oni bai! Mi gyrhaeddes Bryn Ffolt efo'r tractor yn bangio a chlecian, ond r'on i'n ddyn hapus.

Tua blwyddyn yn ddiweddarach, roeddwn i

# HUN yn dod adre: parhad

ar daith tractors ('Unwaith yn ddyn, dwywaith yn blentyn, yn ôl Anwen), ac mi wnes i gyfarfod y ffrind oedd wedi gwerthu'r tractor i mi. Mi sylwes i ei fod yn dreifio *Cropmaster* arall – HUN 313. Roeddwn i'n gwbod mai rhif Sir Ddinbych oedd hwn, ac mi holes i ble'r oedd o wedi cael gafel arno fo. Roedd o wedi dod o hyd iddo mewn sied â'r to wedi mynd â'i ben iddo ac wedi disgyn ar y tractor. A dyna ddiwedd y sgwrs. Yn ddiweddarach, mi ddywedodd ei fod o wedi dechre casglu hen dractorau unwaith eto. Mi wnes i ddymuno'n dda iddo fo, a dyna ni.

Ychydig fisoedd wedyn, mi ddois i ar ei draws o unwaith eto mewn cystadleuaeth troi. Roedden ni'n ar fêls gwellt, a medde fo 'Bryn, dwi wedi dod o hyd i'r gwaith papur – roedd y tractor wedi'i gofrestru yn enw Davies, Fferm Bancer, Llandyrnog'. Bron i mi ddisgyn 'nôl oddi ar y bêl wellt!

Mi eglures i mai 'nhaid i oedd Mr Davies, a 'mod i'n ddyn hapus rwan, yn gwybod bod HUN mewn dwylo diogel. Fel hanner jôc, mi ddudes i wrtho, 'rho f'enw i arno fo!' (h.y. os wyt ti'n ei werthu o, i mi gael y cynnig cynta'.)

Ta waeth, *'araf bach mae mynd ymhell'* fel ma nhw'n ddeud. Fisoedd wedyn, dyma'r ffôn yn canu. Fy ffrind, y gwerthwr tractor oedd yno. Roedd wedi bod yn meddwl y byddai'n beth braf petai'r HUN yn mynd yn ôl at y teulu gwreiddiol. Wel, ro'n i wedi cael sioc! Ro'n i'n cofio i mi ddeud 'rho f'enw arno', ac roedd o'n cofio i mi brynu 'i hoff dractor o– HUJ 124, yr un roedd o eisiau'n ei gasgliad erbyn hyn. Felly'n syml, dim ond cyfnewid tractor oedd ei angen – a dyna ddau ddyn hapus!

Mi es i i weld yr HUN yn y sied ger ei dŷ newydd, yng nghanol llawer hen dractor o frîd. Roedd rhif yr injan yn y llyfr yr un fath â phlât pres y *dashbord*. Roedd popeth yn cyd-fynd, wedi'i arwyddo, ac yn cadarnhau mai hen dractor Thomas Davies, Fferm Bancer Mawrth 1af 1952 oedd o. Roeddwn i yn fy seithfed ne'! Ysgwyd llaw, popeth wedi'i setlo, ac yn lwcus i mi, cytunodd i'w ddanfon i Bryn Ffolt.

Felly mae'r HUN 313 wedi bod yma ers cryn amser bellach. Does gen i ddim syniad be fydd ei dynged o ar ôl 'nyddiau i, ond rhaid cydnabod ein bod ni wedi cael llawer iawn o hwyl efo'n gilydd. Efo help ffrindiau yma yn Llandyrnog, ryden ni'n trefnu taith dractors bob blwyddyn, a hyd yn hyn, ryden ni wedi codi dros £25,000 at wahanol elusennau.

Ac i feddwl fod y cwbl wedi dechre efo pwl byrbwyll!

*Bryn Davies*




*Richard a Bryn gyda thractor eu taid heddiw*



*Teulu Davies, fferm Bancer: y brodyr, Arthur, Glyn a David gyda'u rhieni Thomas ac Esther. Daeth Glyn i weld y tractor ar ôl iddo ddychwelyd i'w hen gartre. Roedd Glyn yn meddwl y byd o'r llun ohono gyda'r tractor a phan fu farw yn 2019, roedd y llun ar daflen ei angladd.*

# Gair gan y Rheithor

Heb os nac oni bai, mae bywyd wedi newid yn y tri mis diwethaf yma. Allwn ni ddim gwneud y pethau roedden ni'n arfer eu gwneud heb feddwl. Mae'r cyfnod dan glo wedi dysgu llawer i ni, yn enwedig sut mae pobol wedi bod mor garedig a pharod i fynd yr ail filltir i helpu ffrindiau a chymdogion.

Mae arwyr y GIG a gweithwyr allweddol wedi gofalu am y rhai sâl a bregus a chynnal gwasanaethau, a chawsom gyfle i guro dwylo bob Nos Iau i ddangos ein gwerthfawrogiad ohonynt. Efallai nad yden ni'n weithwyr allweddol, ond mae pawb wedi chwarae ei ran, mae pawb wedi gwneud gwahaniaeth. Mi ddangosodd bawb garedigrwydd yn eu ffordd fach eu hunain, ac mae hyn yn golygu cymaint i bobl. Y pethau bychain sy'n gwneud y gwahaniaeth. Fel y pregethodd Dewi Sant 'Gwnewch y pethau bychain'.

Pan benderfynodd Capten Tom Moore gerdded 100 o weithiau o gwmpas ei ardd i godi arian tuag at GIG gan obeithio codi tua £1000. Ond cipiodd hyn ddychymyg pobl a'r cyfryngau a chodwyd dros £30 miliwn. Llwyddodd gweithred fechan o garedigrwydd i wneud gwahaniaeth mawr.

Roedd o'n gyn-filwr yn yr Ail Ryfel Byd. Buom yn cofio am ddiwrnod *VE*, 75 mlynedd yn ôl, ond ar Fai 8fed 1945, doedd y rhyfel ddim ar ben yn y Dwyrain Canol a Burma – ddigwyddodd hynny ddim tan Awst 15fed, a pharodd y dogni bwyd tan ganol y 50au. Roedd ail fwrw iddi yn ymdrech faith a llafurus.

Bydd codi'r gwaharddiadau presennol yn debyg iawn. Mae cynlluniau ar y gweill i godi rhai gwaharddiadau, ond mae'n siŵr y bydd hi'n broses hir. Chawn ni ddim gwared â'r coronafeirws nes cael brechlyn. Tan hynny, bydd yn effeithio ar fywydau pob un ohonom mewn sawl ffordd. Ryden ni wedi dysgu llawer o wersi. Gadewch i ni gadw beth sy'n dda a cheisio dal ati i ddangos caredigrwydd a pharch at bobl, a gwneud ein cyfraniad bach wrth ofalu am ein byd.

Wrth sôn am chwarae'n rhan, mae'n f'atgoffa o'r stori fach ddoniol hon:

Roedd hi'n ddiwrnod oer a chymylog pan welodd dyn ar ei geffyl 'dderyn to yn gorwedd ar ei gefn yng nghanol y ffordd. Tynnodd ffrwyn y ceffyl, daeth oddi arno, a gofynnodd i'r aderyn bach:

'Pam wyt ti'n gorwedd ar wastad dy gefn a dy draed i fyny?'

'Glywes i fod y nefoedd yn mynd i ddisgyn heddiw' meddai'r aderyn.

Chwarddodd y dyn a dweud 'Ac mae'n debyg y byddai'r coesau bach heglog yna yn gallu dal y nefoedd?'

'Mi fydden i'n siŵr o wneud fy ngore.' medde'r aderyn to.

(*Anhysbys*)


Cadwch yn ddiogel.
Pob bendith,
*Val Rowlands*

**GLYN EVANS AUTOCLINIC**
**Canolfan Trwsio Ceir**
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
**01745 815141**
**07808970364**

# Cofio 7 ac 8 Mai, 1945


Tues. May 8th.

V.E. Day.

Don't feel at all elated, weather dreadful. Mr. Churchill told the world Germany signed unconditionly to Gen. Eisenhower yesterday morning. Some German units still fighting Russians. Heard King tonight went to church.

*O ddyddiadur mam Mrs Sylvia Evans, Fforddlas:*
*'Don't feel at all elated, weather dreadful. Mr Churchill told the world Germany signed unconditionally to General Eisenhower yesterday morning. Some German units still fighting Russians. Heard King tonight, went to church.'*




*Ym meddiant Mrs Edith Hughes, wedi'i gael gan ei hewythr, Bob Blackwell.*

## Atgofion Jean a Paul Grange

Roedd diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ym mis Mai 1945 yn adeg o ddathlu ac mae'r atgofion yn glir am bartïon ar strydoedd ac yng nghanol pentrefi. Aeth y plant a oedd yn efaciwîs yn ôl at eu teuluoedd, a daeth tadau a meibion adref ar ôl eu rhyddhau o'r lluoedd arfog. Daeth bwydydd fel jeli, *blancmange*, tuniau ffrwyth, cynhwysion i wneud cacennau a threiffl, i'r golwg o'r dirgel – rhaid bod pobl wedi'u cadw ers blynyddoedd ar gyfer y fath ddigwyddiad. Codwyd bynting a baneri ym mhob man. Cyneuwyd coelcerthi. Cafodd y tafarnau lawer o fusnes, a rhoddwyd eu pianos y tu allan iddyn nhw er mwyn i bobl gael canu a dawnsio. Cafodd pawb amser gwych ac roedd hi'n gyfnod hapus a chofiadwy.

Fodd bynnag, er bod buddugoliaeth wedi bod yn Ewrop ym mis Mai 1945, y duedd ydi anghofio bod y brwydro yn erbyn Japan wedi parhau. Aeth hwn yn ei flaen tan fis Awst y flwyddyn honno ac mae sawl un a fu'n rhan o'r ymgyrch yn Burma yn ddig nad oes neb yn rhoi sylw i hyn. Cipiwyd cymydog Paul yn garcharor yn ystod yr ymladd yn erbyn Japan a bu am sawl blwyddyn yn gorfod llafurio o dan amodau erchyll. Dychwelodd yn gysgod o'r dyn a adawodd am y rhyfel. Dathlwyd Buddugoliaeth yn Japan pan ildiodd y wlad o'r diwedd ar ôl i'r Americanwyr ollwng bom atomig arni. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn cofio i ni ddathlu i'r un graddau ag y gwnaethon ni ym mis Mai.

*Diolch i Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan am gofnodi'r atgofion hyn*

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

**Prosiect yr Ail Ryfel Byd**
Mae'r Gymdeithas yn parhau â'i gwaith i ymchwilio i wybodaeth, cofnodion ac atgofion bywyd yn ystod cyfnod y rhyfel yn y pentrefi hyn, a'u casglu. Y bwriad yw cyhoeddi yn 2025 gydymaith i'r gyfrol ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Unwaith eto, mae'n gofyn am help holl ddarllenwyr Llais Llandyrnog gyda'r ymchwil hwn.

**A oes gennych chi atgofion o fyw yn Llandyrnog neu Langwyfan yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Oeddech chi'n byw yn rhywle arall yn y DU neu dramor ac ag atgofion am y cyfnod? Ydych chi'n cofio straeon gan deulu neu ffrindiau am yr adeg honno? A oes gennych chi luniau, toriadau o bapurau newydd, arteffactau neu eitem eraill?**

Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau o gasglu'r wybodaeth ac fe ddechreuwn gyda dwy a gafodd eu geni a'u magu yn Llandyrnog – Sylvia Evans a Buddug Foulkes. Cyn y gofid mawr, aeth Julia a Rona â nhw am baned i'r Lodge, Llanrhaeadr a dyma grynodeb o rai o'r straeon a glywyd yn ystod y sgwrs honno.

**Y Gwarchodlu Cartref**
Cyn iddo gael ei alw i'r lluoedd arfog, roedd tad Buddug yn y Gwarchodlu Cartref a fyddai'n cyfarfod mewn sied yn Clwyd Bank. Roedden nhw i gyd yn eu gwelyau rhyw noson, pan gurodd rhywun ar y drws a dweud bod sôn am olau'n fflachio ar y mynydd. Y gred oedd bod y golau'n dod o awyren yr Almaen. Daeth holl aelodau'r Gwarchodlu ynghyd a cherdded i ben y mynydd i weld beth oedd yn digwydd. Rhedyn ar dân yn symud yn y gwynt oedd tarddiad y golau. Fe ddylai fod wedi'i ddiffodd cyn iddi dywyllu i fodloni rheolau'r *blackout*.

**Bywyd y pentre**
Byddai'r plant yn creu eu hwyl eu hunain, y tu allan gan amlaf. Byddai'r bechgyn wrth eu boddau'n chwilio am nythod adar, dringo coed, gwneud cacennau mwd, chwarae gyda barcutiaid (a thad Sylvia wedi'u gwneud, yn aml) a chwilio am gnau cyll, ymhlith sawl peth arall.

**Prinder bwyd a dogni**
Fferins, bananas a ffrwyth, bacwn a menyn (oni bai eu bod yn ei wneud eu hunain) oedd y pethau roedden nhw'n gweld eu heisiau fwyaf. Roedd llyfrau dogni'n dal i fod yn 1954. Cafwyd papurau caniatâd i gael glo gan Wil y Glo a oedd yn ei nôl o orsaf Llanrhaeadr ac yn ei ddanfon i'r pentref. Daeth y trefniant hwn i ben 31 Hydref 1948. Dim ond tanau glo sy'n cynhesu tai Buddug a Sylvia hyd heddiw.


Mae'r ddwy'n cofio Mrs Richard, Neuadd Cerrigllwydion yn rhoi teganau i'w rhannu rhwng plant y pentre.

Gall eitemau neu roddion o'r cyfnod eich atgoffa amdano. Dyma lun o'r pecyn gwnïo a oedd yn eiddo Bob Blackwell, ewythr Edith Hughes.




**Cofiwch hefyd am gais y Gymdeithas Hanes am eich cyfraniadau tuag at gofnod o brofiadau a digwyddiadau pandemig COVID-19.** Fe gewch anfon eich cyfraniad nawr neu'n nes ymlaen mewn unrhyw fformat. Anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com, neu pan fydd y cyfyngiadau wedi dod i ben, gellir nôl eich cyfraniad oddi wrthych neu o focs yn y pentre. Os hoffech gyfrannu gwybodaeth yn ddi-enw, mae hynny'n iawn.

# Llythyr o ddiolch



On Behalf of His Majesty's Government
I wish to thank you for the service you have rendered to the nation during the war. The task of British agriculture, an arduous, indeed a vital one, was to keep the nation fed. With your help it has been done.

W.A.E.C.'s by their care and consideration, secured the willing co-operation of the farming community, and have, by their energy and example, raised the production of our farms to a new high level.

I am confident you will always be proud of having played so important a part in the contribution which British agriculture has made to our Victory.

Minister of Agriculture and Fisheries,
8th May 1945.

To

Cawsom gopi o'r llythyr hwn gan deulu Foulkes, Pentrefelin, Llandyrnog, sydd wedi byw yno ers 1920. Fel y gwelwch, dyddiad y llythyr hwn yw 8 Mai 1945 ac fe'i hanfonwyd at Mr J E Foulkes, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Llanrhaeadr o Bwyllgor Gwaith Amaethyddol Sir Ddinbych adeg y Rhyfel. Dyma amlygu'r diolchgarwch i'r ffermwyr yr adeg honno, gobeithiwn y bydd ein cenhedlaeth ni'n gwerthfawrogi gwaith ac ymrwymiad ein ffermwyr i'r cyhoedd.

Nodyn ychwanegol amdano a fydd o ddiddordeb i'r rheini sydd wedi bod i Amgueddfa Werin Sain Ffagan, Mr Foulkes a roddodd ffermdy Hendre'r-ywydd Uchaf i'r amgueddfa yn 1956. Tŷ neuadd â ffrâm nenfforch yw hwn. Fe'i codwyd yn 1508, tua diwedd yr Oesoedd Canol, ac mae'n nodweddiadol o ffermdai safonol Cymru yn y cyfnod hwnnw. I ddarllen rhagor amdano, ewch i amgueddfa. cymru/sainffagan/adeiladau/hendrerywydd.

# Cystadleuaeth creu poster




Mae siop y cigydd wedi bod yn gwahodd plant i lunio posteri i ddiolch i'r NHS. Y wobr yw hamper o nwyddau'r siop a hufen iâ Chilly Cow, y cwmni lleol. Fe gewch chi enw'r enillydd yn rhifyn y mis nesa.

Mae Baby Basics Dyffryn Clwyd yn apelio am nwyddau i famau a babanod anghenus. Am ragor o fanylion anfonwch e-bost at babybasicsvaleofclwyd@gmail.com, neu chwiliwch am dudalen Facebook yr elusen.

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Cŵn a COVID-19

*Be ydi'r cysylltiad rhwng cŵn arogli a COVID-19?*

Mae mwyafrif y gwyddonwyr ar draws y byd yn ceisio eu gore glas i ganfod brechlyn yn erbyn *COVID*-19, ond yn y cyfamser, mae eraill yn ceisio dod o hyd i ddulliau o ganfod yr haint yn gynnar mewn pobl er mwyn ceisio atal lled-aenu – a hynny drwy hyfforddi cŵn! Pam defnyddio cŵn meddech chi?

Mae anifeiliaid, yn enwedig cŵn, yn defnydd-io eu 5 synwyr mewn sawl ffordd wahanol i fodau dynol. Mae eu synnwyr arogl yn llawer iawn mwy sensitif na ni. Mewn bodau dynol ac anifeiliaid, mae synnwyr arogl, a elwir yn *arogli*, yn ymwneud â gronynnau, neu folecylau cemegol neu aroglau yn treiddio mewn i'r trwyn, ac yn cael eu hydoddi mewn hylif mwcaidd o fewn pilen a elwir *epitheliwm arogleuol*. Mewn bodau dynol, mae'r *epithel-iwm arogleuol* 7 cm i fyny'r trwyn o'r ffroenau. Tu mewn i'r trwyn, mae gwagle a elwir yn geudod y trwyn. Ar frig y ceudod trwyn, mae celloedd blew synhwyraidd arbennig a elwir yn *gelloedd derbyn arogli*. Maen nhw'n ymestyn drwy dyllau esgyrnog uwchben y ceudod trwyn.

Y celloedd blewog hyn ydi derbynyddion sy'n ymateb i arogleuon arbennig. Yn eu tro, mae gan y celloedd blew hyn flewiach bychain, *cilia,* ar un ochr ac *acsonau* ar yr ochr arall. Mewn bodau dynol, mae tua 5 miliwn o dderbynydd-ion arogleuol, ac maen nhw'n ymateb i arogl drwy drosglwyddo signalau i ran o'r ymennydd a elwir yn system limbig. Dyma'r system sy'n ymwneud ag ymddygiadau emosiynol a chof yn yr ymennydd – dyna'r rheswm pam fod arogl gwrthrych yn aml yn dod ag atgofion i chi.

Mae gan gŵn, fodd bynnag, system arogleuol ychwanegol ar dop y geg a elwir yn organ *fomeronasal*, ac arwynebedd fwy o'r ymennydd sy'n cynnwys mwy o dderbynyddion yn y trwyn. Mae hyn yn gymorth i gŵn fedru synhwyro gwrthrychau nad ydyn nhw'n eu gweld, fel emosiynau dynol e.e. mae gan y gwaetgwn (y cŵn gyda'r synnwyr arogli mwyaf) dros 300 miliwn o gelloedd derbyn. Yn gyffredinol, mae synnwyr arogli'r cŵn tua 10,000 i 100,000 yn fwy cywir na ni. Mewn ffordd arall, mae cŵn yn medru canfod arogl mewn un rhan o driliwn! Falle gallwn ni flasu llwyaid o siwgr mewn cwpaned o goffi, ond mae cŵn yn gallu ei flasu mewn miliwn galwyn o ddŵr, neu ddau bwll nofio Olympaidd! Gall cŵn arogli afal drwg mewn 2 filiwn o gasgenni! Fel rydyn ni'n 'gweld' y byd trwy ein llygaid, mae cŵn yn 'gweld' y byd trwy eu 'trwynau'!

Dyma rai ffeithiau syfrdanol am synnwyr arogli'r cŵn:

**Gallu adnabod unigolion oherwydd ei arogl unigryw** Dim ots pa mor lân rydych chi, mae gan bob unigolyn arogl unigryw. Pam? Mae ein croen wedi ei orchuddio â chwarennau chwys a sebwm, sy'n rhyddhau hylif ac olewau yn barhaus gydag arogleuon arbennig. Rydyn ni'n diosg 50 miliwn o gelloedd marw'r croen bob munud. Waw! Maen nhw'n disgyn fel cawod o eira mân oddi ar y corff, ond wrth gwrs, dydyn ni ddim yn gallu eu gweld nhw. Ond, mae'r cŵn yn gallu 'gweld' *(arogli*) y cen yma sy'n gyfoethog o olewau a bacteria'r corff

**Arogli rhai emosiynau** Mae gwahanol emosiynau, fel bod yn hapus, yn gas, yn bryderus, yn ofnus ayb, yn rhyddhau gwahanol gemegau yn y corff, ac mae cŵn yn medru eu hadnabod – falle y gallwn ni gelu'r emosiwn oddi wrth ein cyfoedion drwy fynegiant wyneb gwahanol, ond mae'r ci'n gwybod yn well!

**Arogli canser** Mae cŵn sy'n gallu 'arogli' canser yn ymateb i arogl cemegyn unigryw sy'n cael ei ryddhau gan y corff oherwydd y canser, e.e. maen nhw'n cael eu hyfforddi i ganfod melanoma, canser y croen, drwy arogli nam ar y croen.

# Cŵn a COVID-19: parhad

Felly, gall cŵn gael eu defnyddio i ffroeni COVID-19 mewn pobl? Mae'r gwyddonwyr yn ffyddiog o hyn, oherwydd mae cŵn canfod arogleuon yn medru arogli crynodiadau isel iawn o gyfansoddion organig anweddol (*VOC*s) (*arogleuon*) sy'n cael eu cysylltu â heintiau. Ceir y rhain mewn gwaed, poer, wrin neu anadl dynol. Gallai cŵn fod yn ddefnyddiol iawn i ganfod COVID-19 mewn cleifion asymptomatig, neu mewn lleoliadau lle mae profi am y firws yn anodd ee mewn ysbytai, gweithleoedd. Mae gwaith ymchwil wedi cychwyn yn barod: mae Ysgol Meddyginiaeth Filfeddygol Prifysgol Pensylfania yn hyfforddi wyth ci i wahaniaethu rhwng samplau sydd wedi eu cymryd o gleifion gyda COVID-19 neu hebddo, ac mae'r elusen *Medical Detection Dogs* yn cydweithio ag Ysgol Feddygol Hylendid a Throfannol, Llundain a Phrifysgol Durham, ac yn hyfforddi 6 chi – *Norman, Digby, Storm, Star, Jasper ac Asher* – a gallai'r cŵn clyfar hyn fedru canfod y coronafeirws ymhen 6 wythnos. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, gallai'r cŵn hyn gael eu defnyddio i wirio teithwyr mewn maes awyr sy'n cyrraedd y DU, yn cynnwys y rhai asymptomatig. Nodwch enwau'r cŵn hyn at y dyfodol – falle byddan nhw'n enwog rhyw ddiwrnod!!




Fel y dywedodd Alexander Graham Bell yn 1914, wrth iddo herio gwyddoniaeth i ddeall arogleuon "*If you are ambitious to find a new science, measure a smell*."

*Iestyn Jones Evans*

# Cerrig codi calon




Mae 'cerrig codi calon' wedi'u peintio a'u gadael o gwmpas y pentre i gefnogi gweithwyr allweddol ac i godi calon pobl wrth iddyn nhw gael eu hymarfer corff dyddiol.

Gobeithio y bydd rhagor yn gwneud hyn er mwyn ychwanegu diddordeb at y daith ddyddiol.





# Nodiadau o Blas Ashpool

Rydw i'n rhyw feddwl bod y wlad yn edrych yn harddach nag arfer 'leni – fasech chi'n cyd-weld? Mae'r cloddiau'n llawn o orthyfail a smotiau pinc llachar y ceiliog coch ac os edrychwch chi'n fwy manwl, mae 'na beth wmbredd mwy o flodau llai yn cuddio yn y glaswellt. Petaen ni ddim ond yn gallu rhoi holl olygfeydd, synau, ac arogleuon y Gwanwyn mewn potel fawr a'i chadw fel diod hud i drin bob anhwylder! Mae'r gwenoliaid yn ôl (mae mwy ohonyn nhw 'leni, diolch byth) ac maen nhw wrthi fel lladd nadroedd yn ail-dwtio hen nythod a chreu rhai newydd. A'r gwcw, wel, chlywis i mohoni'n canu gymaint ers blynyddoedd – yn enwedig ben bore neu'r peth ola cyn machlud. Ambell dro, mae hi i'w chlywed yn ystod y dydd hefyd! Roedd hi wrthi'n canu ar dderwen fawr y tu ôl i'r tŷ y noson o'r blaen pan oeddwn i'n tacluso'r ardd lysiau – dal a dal i ganu'n ddi-stop. Perffaith!

Mae gan gartref y Bells sawl cenhedlaeth yn byw dan yr un to ar hyn o bryd, ac mae'n dod â sawl profiad diddorol yn ei sgil. Mae'r wyrion yn cadw ni i fynd, mae hynny'n siŵr! Roedd 'na gyffro mawr fis Mai pan gawson ni ddwy ferlen – Jasper a Pishyn, ac maen nhw'n diddanu llawer arnon ni (wel, y fi, beth bynnag). Mae angen edrych ar ôl y ddau, rhoi anwes a chwtsh iddyn nhw, a'u cerdded ar hyd y caeau am anturiaethau bach a phicnics. Atgofion melys o'r hen amser!

Yr un wythnos, mi landiodd y ddau fochyn, '*Lion King*' a '*Ja Ja'* (am enwau!), ac mae'r ddau wrth eu boddau'n cael golwg ar eu cartref newydd a chael eu tretio gan y plant bob dau funud efo afalau melys.

Gofynnodd ffrind i mi'r diwrnod o'r blaen sut oedd pethe'n mynd o ran addysgu'r plant gartre. Wel, a deud y gwir, dyden ni ddim yn poeni am hwnnw. Be' di pwynt eistedd yn y tŷ yn stryffaglio efo rhyw waith ysgol a hwythau'n cael llawer mwy o addysg yn y byd mawr y tu allan?

Dyma fy rhestr addysgu i:-
Ffiseg: dreifio a chware efo 'Ted Ted' ar y tractor bach gwyrdd.
Mathemateg: Coginio efo 'Ffi Ffi'
Iechyd a Diogelwch: gwneud dens a chael tanau gwersylla efo Yncl Bob
Dawns a Drama: efo Anti Mims
Heb sôn am sgiliau cymdeithasu wrth i bob oedran ddysgu cyd-fyw!

Mae'r rhestr yn ddiddiwedd. I ddeud y gwir, dwi'n meddwl y cân nhw drafferth mynd yn ôl i gaethiwed stafell ddosbarth rhyw ddiwrnod. Mae bob diwrnod yn dod â phrofiad a chyfle newydd wrth wylio, gwneud a thrafod, a dwi'n meddwl y bydd eu bywydau nhw'n gyfoethocach.

Y bore o'r blaen, wrth i mi wneud y siwrne wythnosol i nôl bwyd yn Rhuthun, mi weles i olygfa ryfeddol. O'm blaen i, yn mynd ar gagal drot, roedd ceffyl yn tynnu wagen sipsi liwgar. Wel, roedd rhaid i mi stopio a chael sgwrs. Roedd y dyn wedi dod o Dafarn y Gelyn ac ar ei ffordd i Lanynys i aros noson cyn mynd adre'r diwrnod wedyn.

Yn amal iawn, medde fo, dilyn ei drwyn fydd o, a chyrredd lle bach diogel i aros noson. Roedd 'na stôf fechan, gwely bync, a chypyrdde i ddal pethe angenrheidiol. Roedd 'na hyd yn oed hen grêt pren, lle cedwid yr ieir ers talwm. Mae'n ymddangos yn rhamantaidd iawn rŵan, ond falle nad oedd o'n fywyd mor braf â hynny.

Wrth edrych ymlaen at yr haf, gobeithio y byddwn ni'n dal i werthfawrogi'r profiadau da ddaw yn sgil bywyd syml, llai cymhleth.


Tan y tro nesa'.

Mwynhewch y garddio.

*Fiona Bell*

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn mawr hwn o'r *Llais*!**

# Dan glo



Yr haint a ddaeth fel llwynog
A dwyn ein rhyddid ni –
Ein bywyd braf, a bywiog,
Cynlluniau pwysig, lu.

Dan glo, mewn ofn a chyni,
Heb ruthr amser tyn,
Hawdd iawn yw digalonni,
A llithro i syrthni syn.

Ond caf fy nwyn o'r felan
gan gân y deryn du,
A'i siswrn sionc o felyn
Yn torri'n tristwch ni.

Cytgan:
O dalia di i ganu
Yn rhydd ar frigyn fry,
Dy diwniau'n llawn o'r Gwanwyn
Yn codi'n gobeithion ni.

*Ann Jones Evans*

**Cysylltwch â Green Fingers Garden Centre, Dinbych i archebu planhigion**
**Rhif ffôn: 01745 815279.**
**Cymerir archebion rhwng 10 a 12 ar foreau dydd Llun, Mercher ac Iau.**

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dydd Llun 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mawrth 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mercher 9am–12.30**
**Dydd Iau 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Gwener 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

## Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602